Cronfa Ymddiriedolaeth Plant

Taflen Ffeithiau

Cyfrif cynilo a buddsoddi hirdymor yw'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant (CYP) a grëwyd yn arbennig i blant. Bydd yr arian ynddo yn perthyn i'ch plentyn a dan glo tan y bydd yn 18 oed, felly bydd ganddo gryn amser i dyfu. Yn 18 oed gall ddewis parhau i gynilo neu ddefnyddio'r arian i bethau eraill, megis gwersi gyrru, cyfarpar cyfrifiadurol neu gyrsiau hyfforddi.

Mae pob plentyn a aned ar neu ar ôl 1af Medi 2002 yn gymwys ar gyfer cyfrif CYP os ydynt yn byw yn y DU, mae Budd-dal Plant yn cael ei dderbyn ar eu cyfer ac nid ydynt yn amodol ar gyfyngiadau mewnfudo.

The Child Trust Fund (CTF) is a long-term savings and investment account created especially for children. The money in it belongs to your child and is locked away until they are 18, so it has a long time to grow. At 18 they can choose to carry on saving or use the money for other things, such as driving lessons, computer equipment or training courses.

Every child born on or after 1st September 2002 is eligible for a CTF account if they live in the UK, Child Benefit is being received for them and they are not subject to immigration restrictions.

Faint y bydd fy mhlentyn yn ei dderbyn?

Byddwch yn derbyn taleb CYP gwerth £250 yn awtomatig pan fyddwch yn hawlio ac yn dechrau derbyn Budd-dal Plant ar gyfer eich plentyn. Bydd plant o deuluoedd ag incwm is (£14,155 neu lai yn 2006-07) yn derbyn £250 ychwanegol, a delir yn uniongyrchol i mewn i'w cyfrif.

Bydd taliad awtomatig arall o £250 pan fydd eich plentyn yn cyrraedd saith oed ac eto bydd plant mewn teuluoedd ag incwm is yn cael £250 ychwanegol.

Os nad ydych wedi derbyn taleb neu rydych wedi ei cholli, ffoniwch y Llinell Gymorth CYP ar 0845 302 1489 (Cymraeg) neu 0845 302 1470 (Saesneg).

How much will my child receive?

You will automatically receive a £250 CTF voucher when you claim and start receiving Child Benefit for your child. Children from lower income households (£14,155 or less in 2006-7) will receive an extra £250, paid directly into their account.

There will be a further automatic payment of £250 when your child turns seven and children in lower income households will again get an extra £250.

If you haven't received a voucher or have lost it, call the CTF Helpline on 0845 302 1470.

Beth y dylwn ei wneud â'r daleb?

Dim ond i agor cyfrif CYP y gellir defnyddio'r daleb. Ceir tri math o gyfrif, mae pa un a ddewiswch yn dibynnu ar sut rydych yn teimlo am ei mentro hi er mwyn rhoi cyfle gwell i'r arian dyfu.

What should I do with the voucher?

The voucher can only be used to open a CTF account. There are three types of account, which one you choose depends on how you feel about taking a risk in order to give the money a better chance to grow.

Cyfrif Cyfranddeiliaid Caiff arian eich plentyn ei fuddsoddi yng nghyfranddaliadau cwmnïau, felly bydd yn tyfu os bydd y cyfranddaliadau hynny'n gwneud yn dda. Mae rhai rheolau mewn lle i leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn cyfranddaliadau.

Cyfrif Cyfranddaliadau (Nid cyfranddeiliaid) Caiff arian eich plentyn ei fuddsoddi yng nghyfranddaliadau cwmnïau, felly bydd yn tyfu os bydd y cyfranddaliadau hynny'n gwneud yn dda. Yn annhebyg i gyfrif cyfranddeiliaid, nid oes rheolau mewn lle i leihau'r perygl o fuddsoddi mewn cyfranddaliadau.

Cyfrif Cynilo (Nid cyfranddeiliaid) Nid yw'r math hwn o gyfrif yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau. Dyma'r dewis arian parod sy'n talu llog.

Os na fyddwch yn agor cyfrif erbyn y dyddiad dibennu ar y daleb, byddwn yn trefnu i ddarparwr CYP agor cyfrif cyfranddeiliaid ar gyfer eich plentyn. Ond bydd arian eich plentyn wedi colli'r cyfle o flwyddyn gyfan o dyfiant.

Ni fydd yr arian yng nghyfrif CYP eich plentyn yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau neu gredydau treth a dderbyniwch, ac ni fyddwch chi na'ch plentyn yn talu treth ar yr arian a enillir mewn cyfrif CYP. Cofiwch, efallai na fydd cyfrif cynilo yn cynyddu gymaint â chyfrif â chyfranddaliadau ynddo, ond gall gwerth cyfranddaliadau ostwng yn ogystal â chodi.

Pwy all agor cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant?

Er y bydd y cyfrif CYP yn perthyn i'ch plentyn, dim ond rhiant (os yn 16 oed neu'n hŷn), neu rywun arall â chyfrifoldeb rhieni am y plentyn (term cyfreithiol sy'n golygu rhywun â hawliau a dyletswyddau rhiant), a all ddefnyddio'r daleb CYP i agor cyfrif. Bydd y person a fydd yn agor y cyfrif yn ei reoli tan ben-blwydd y plentyn yn 16 oed, pan fydd y plentyn yn dechrau ei reoli.

Os ydych yn rhiant o dan 16 oed, ni allwch, yn ôl y gyfraith, reoli cyfrif CYP ond mae cymorth a chyngor ar gael o'r Llinell Gymorth CYP ar 0845 302 1489 (Cymraeg) neu 0845 302 1470 (Saesneg).

Stakeholder Account Your child's money is invested in companies' shares, so it grows if those shares do well. There are some measures in place to reduce the risks associated with investing in shares.

Shares Account (Non-stakeholder) Your child's money is invested in companies' shares, so it grows if those shares do well. Unlike a stakeholder account, there are no rules in place to reduce the risk of investing in shares.

Savings Account (Non-stakeholder) This type of account does not invest in shares. It is the cash option and pays interest.

If you don't open an account by the expiry date on the voucher, we will arrange for a CTF provider to open a stakeholder account for your child. But your child's money will have missed out on the chance of a whole year's growth.

Money in your child's CTF account will not affect any benefits or tax credits you receive, and neither you nor your child will pay tax on money earned in a CTF account. Remember, a savings account may not increase as much as an account with shares in it, but the value of shares may go down as well as up.

Who can open a Child Trust Fund account?

Although the CTF account will belong to your child, only a parent (if 16 or over), or someone else with parental responsibility for the child (a legal term meaning someone with the rights and duties of a parent), can use the CTF voucher to open an account. The person who opens the account will manage it until the child's 16th birthday, when the child will take control.

If you are a parent under 16, you cannot by law manage a CTF account but help and advice are available from the CTF Helpline on 0845 302 1470.

Ble y gallaf agor cyfrif?

O fanciau a chymdeithasau adeiladu i gymdeithasau cyfeillgar ac archfarchnadoedd - mae llawer o fannau lle y gallwch ddod o hyd i ddarparwr cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae pob darparwr yn cynnig cyfrif cyfranddeiliaid ac mae rhai hefyd yn cynnig mathau eraill o gyfrif, gan gynnwys cyfrifon moesegol a Shari'a. Holwch ddarparwyr ynghylch unrhyw daliadau a godir am redeg y cyfrif.

Bydd y pecyn gwybodaeth y byddwch yn ei dderbyn yn cynnwys rhestr o ddarparwyr a bydd y rhestr ddiweddaraf i'w gweld yn www.childtrustfund.gov.uk. Neu, ffoniwch y Llinell Gymorth CYP ar 0845 302 1489 (Cymraeg) neu 0845 302 1470 (Saesneg).

Sut ydw i'n agor cyfrif?

Yn gyntaf, gofynnwch i'ch dewis ddarparwr am ffurflen gais. Yna llenwch y ffurflen a mynd â hi neu ei hanfon yn y post gyda thaleb eich plentyn i'ch dewis ddarparwr CYP. Gallwch hefyd agor cyfrif dros y ffôn neu ar-lein gyda rhai darparwyr.

Where can I open an account?

From banks and building societies to friendly societies and supermarkets - there are lots of places where you can find a Child Trust Fund account provider. All providers offer a stakeholder and some also offer other types of account, including ethical and Shari'a ones. Be sure to ask providers about any fees charged for running the account.

The information pack you will receive contains a list of providers and you can always find the most up-to-date list at www.childtrustfund.gov.uk. Alternatively, call the CTF Helpline on 0845 302 1470.

How do I open an account?

First, ask your chosen provider for an application form. Then simply fill in the form and take or post it with your child's voucher to your chosen CTF provider. You can also open an account by phone or online with some providers.

Beth y dylwn ei wneud ar ôl i mi agor cyfrif CYP fy mhlentyn?

- Nid oes rhaid i chi ychwanegu at y cyfrif, ond gallai symiau bach hyd yn oed dyfu'n rhywbeth sylweddol ar gyfer eich plentyn pan fydd yn cyrraedd 18 oed
- Rhowch wybod i deulu a chyfeillion eich bod wedi agor y cyfrif gan efallai y byddant hwythau eisiau rhoi arian i mewn. Y cyfanswm y gellir ei roi i mewn bob blwyddyn yw £1,200 (heb gynnwys taliadau'r Llywodraeth)
- Gallwch newid y cyfrif neu'r darparwr ar unrhyw adeg os byddwch eisiau gwneud hynny

What should I do after I've opened my child's CTF account?

- You don't have to add to the account, but even small amounts could grow into something worthwhile for your child when they reach 18
- Let family and friends know you've opened the account as they may want to put money in as well. The total amount that can be put in each year is £1,200 (excluding Government payments)
- You can change the account or provider at any time if you want to

Ble y gallaf ddod o hyd i fwy o wybodaeth?

Am help i ddewis cyfrif:

- Ymwelwch â www.childtrustfund.gov.uk
- Ffoniwch y Llinell Gymorth CYP Gymraeg ar 0845 302 1489, ar agor 8.30am i 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener
- Ffoniwch y Llinell Gymorth CYP Saesneg ar 0845 302 1470, ar agor 8am i 8pm 7 diwrnod yr wythnos
- Er mwyn siarad â rhywun mewn iaith arall, ffoniwch y Llinell Gymorth CYP Saesneg ar 0845 302 1470 a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl ar adeg sy'n gyfleus i chi

Cyllid & Tollau EM

Where can I find out more?

For help in choosing an account:

- Visit www.childtrustfund.gov.uk
- Call the CTF Helpline on 0845 302 1470, open 8am to 8pm 7 days a week
- To speak to someone in another language, please phone the CTF Helpline on 0845 302 1470 and you will be called back at a time that suits you
- If you prefer to speak to someone in Welsh, you can call 0845 302 1489 between 8.30am and 5pm, Monday to Friday